# MORRIS, SILAS (1862 - 1923), prifathro Coleg y Bedyddwyr, Bangor



**Enw:** Silas Morris
**Dyddiad geni:** 1862
**Dyddiad marw:** 1923
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** prifathro Coleg y Bedyddwyr, Bangor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Tom Ellis Jones

Ganwyd 9 Ionawr 1862 yn Dafen, Llanelli. Symudodd y teulu i Bontardulais, a bu'r mab yn gweithio am gyfnod yng ngwaith alcam yr Hendy. Wedi dechrau pregethu aeth i ysgol T. Richards, Aberafon, a derbyniwyd ef i athrofa Pontyp l yn 1880. Enillodd ysgoloriaeth i Fangor y flwyddyn yr agorwyd Coleg y Brifysgol yno, a sicrhaodd radd B.A. Llundain gydag anrhydedd mewn Groeg. Yn 1886 etholwyd ef yn athro yn y clasuron yng Ngholeg y Bedyddwyr, Llangollen, a daeth yn bennaeth y coleg hwnnw (ym Mangor) yn 1896. Cafodd radd M.A. Llundain yn 1888. Ystyrid ef yn ysgolhaig da ar iaith a llenyddiaeth y *Testament Newydd*, a bu'n aelod o bwyllgor y Brifysgol i ddwyn allan gyfieithiad newydd Cymraeg o'r Testament Newydd. Bu'n olygydd *Seren Gomer* am 10 mlynedd, ac ef oedd llywydd cymanfa Bedyddwyr Arfon yn 1906. Yr oedd yn bregethwr meddylgar ond heb unrhyw ymgais at fod yn boblogaidd. Cyhoeddodd lu o ysgrifau i'r gwahanol gyfnodolion. Bu farw 25 Gorffennaf 1923, a chladdwyd ef ym mynwent Sardis, Llanedi.

## Awdur

**Y Parchedig Brifathro Tom Ellis Jones**, (1900 - 1975)

## Ffynonellau

*Seren Gomer*, Tachwedd 1923, 279-80

*Hanes Coleg y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru, 1862–1927* (1928), 84-7

*Penodau yn Hanes y Bedyddwyr Cymreig* (1949), 117-8

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734397

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu